

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Polisi Diogelu Data

Cwmpas a Diben y Polisi

Mae'r polisi hwn yn darparu fframwaith i sicrhau bod Coleg Caerdydd a'r Fro (CAVC) yn bodloni ei reoliadau dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA 18). Mae'n berthnasol i'r holl ddata personol a brosesir gan CAVC yn cynnwys prosesu a gynhelir ar y cyd gan reolwyr, contractwyr a phroseswyr.

Mae CAVC yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data a arweinir gan chwech o egwyddorion diogelu data.

Yn gryo, mae angen i ddata personol:

- gael ei brosesu'n deg, yn gyfreithlon ac mewn modd clir.
- cael ei ddefnyddio ar gyfer pwrpasau penodol, cyfyngedig a nodir yn unig ac ni ddylid ei ddefnyddio na'i ddatgelu mewn unrhyw ffordd sy'n anghydnaws â'r pwrpasau hyn.
- bod yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol.
- bod yn fanwl gywir a chyfredol, lle bo angen.
- peidio â'i gadw'n hirach nag sydd ei angen; a'i
- gadw'n sâff a diogel.

Yn ychwanegol, mae'r egwyddor atebolrwydd yn gofyn i ni allu rhoi tystiolaeth o'n cydymffurfiaeth i'r chwe egwyddor uchod a sicrhau nad ydym yn peryglu unigolion drwy brosesu eu data personol. Gall methu â gwneud hynny olygu torri deddfwriaeth, niweidio enw da, neu oblygiadau ariannol o ganlyniad i ddirwyon. I fodloni'n rhwymedigaethau, rhoddwyd mesurau priodol ac effeithiol ar waith i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddf diogelu data. Mae gan ein staff yr hawl i nifer o bolisiau, gweithdrefnau gweithredol a chanllawiau i gael yr arweiniad priodol ar gyfer cymhwyso'r ddeddfwriaeth ddiogelu data.

Mae'r Swyddog Diogelu Data yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf a'r polisi hwn. Deiliad y swydd honno yw Evan Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth a Thechnoleg, 029 2025 0440, edavies@cavc.ac.uk, FOI@cavc.ac.uk a dataprotection@cavc.ac.uk. Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau neu bryderon ynglŷn â gweithredu'r polisi hwn at y Swyddog Diogelu Data yn y lle cyntaf.

Gwybodaeth a ddiogelir gan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data

Mae diffiniad Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU o "ddata personol" yn cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson sy'n naturiol fyw a enwir neu y gellir ei enwi.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Inspirational. Inclusive. Influential.

www.cardiffandvalecollege.ac.uk

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	10/2022
Dyddiad Adolygu Nesaf:	10/2024

Diogelir data personol ffug enwol gan y ddeddfwriaeth, fodd bynnag nid yw data di-enw yn cael ei reoleiddio gan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU na'r Ddeddf Diogelu Data 18, cyn belled â nad oes modd gwrthdroi'r anonymeiddio.

Mae peth data personol yn fwy sensitif ac mae'n cael ei ddiogelu ymhellach, mae hwn yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â:

- Hil neu darddiad ethnig;
- Barn wleidyddol;
- Credoau crefyddol neu athronyddol;
- Aelodaeth o undeb llafur;
- Data geneteg;
- Data adnabod biometreg;
- Data iechyd;
- Bywyd rhywiol a/neu gyfeiriadedd rhywiol; a
- Data troseddol (euogfarnau a thramgwyddau)

Datganiadau Polisi

Yn sail i'r polisi hwn mae gweledigaeth y Grŵp - Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol a bydd yn cefnogi ein gwaith tuag at yr ysgogiadau allweddol, sef Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwf. Bydd y polisi yn ymgorffori'r egwyddorion canlynol:

- Rhaid i'r rheiny sy'n rhan o Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro fod yn **rhydd rhag gwahaniaethu**.
- Caiff dysgwyr eu cefnogi i'w **galluogi** nhw i gyflawni eu **potensial** tra maent yn dysgu, mewn amgylchedd sy'n lleihau neu'n cael gwared ar anfantais, yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad.
- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i **ddatblygu'n** llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.

Mae CAVC wedi ymrwymo i brosesu data personol rhannol yn glir, cyfreithlon a theg. Mae hyn yn cynnwys yr holl ddata personol a brosesir am ddysgwyr, staff, cwsmeriaid neu'r rhai sy'n gweithio neu'n rhyngweithio â ni.

Perchnogion Asedau Gwybodaeth - rydym yn rhoi Perchennog Ased Gwybodaeth i bob ased gwybodaeth ar draws y sefydliad, sydd, gyda rhwydwaith o dimau a staff gyda chyfrifoldebau rheoli gwybodaeth, yn cynorthwyo CAVC i reoli data personol a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag o.

Hysbysiad Preifatrwydd - rydym yn cyhoeddi hysbysiad preifatrwydd ar ein gwefan ac yn darparu hysbysiadau prydlon lle bo angen. Rydym yn tracio ac yn sicrhau bod unrhyw newidiadau yn ein hysbysiad preifatrwydd ar gael. Rydym yn cyhoeddi a diweddarau hysbysiad preifatrwydd staff hefyd

Hyfforddiant - mae'n ofynnol i'r holl staff ymgymryd â hyfforddiant gorfodol ar lywodraethu a diogelu gwybodaeth bob dwy flynedd, gyda'r cyntaf yn cael ei gyflawni wrth anwytho.

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	10/2022
Dyddiad Adolygu Nesaf:	10/2024

Torri Rheolau - rydym yn ystyried digwyddiadau o dorri rheolau data personol ac mae gennym fecanwaith adrodd sy'n cael ei rannu â phob aelod o staff. Rydym yn asesu p'un a oes angen adrodd am dorri rheolau i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel Rheolydd y Ddeddf Diogelu Data. Gweithredir yn briodol i hysbysu'r gwrthrychau data pe bai angen.

Hawliau Gwybodaeth - mae gennym dîm ymrwymedig a phrosesau clir i fynd i'r afael â chais am fynediad gan y testun a cheisiadau hawliau gwybodaeth eraill.

Diogelu Data o'r Cychwyn ac fel Anghenraid - mae gennym weithdrefn i asesu prosesu data personol a ystyrir yn risg uchel, sydd angen Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA), a phrosesau i gynorthwyo staff i sicrhau bod cydymffurfiaeth a phreifatrwydd drwy ddylunio yn rhan integredig o unrhyw gynnyrch, prosiect neu wasanaeth a gynigiwn.

Cofnodion o Weithgareddau Prosesu (ROPAs) - rydym yn cofnodi ein gweithgareddau prosesu a cyn cyhoeddi ein polisi diogelu ar brosesu gorfodi'r gyfraith a phrosesu data categori arbennig.

Cytundebau - Mae ein hadran gyfreithiol Fasnachol yn goruchwyllo fod ein cytundebau yn cydymffurfio â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU

Addysg Uwch – bydd y Coleg yn cysylltu i'r adrannau priodol o bolisïau (diogelu Data) penodol darparwyr partner addysg uwch.

Cymhwyso'r Polisi

Staff

Nid yn unig mae'r polisi hwn yn berthnasol i gyflogeion a gweithwyr cyfredol ond hefyd i ymgeiswyr cyflogaeth, y rhai sy'n cael cyfweiliad a chyn-gyflogeion.

Nid yw'r polisi hwn yn ffurfio rhan o'r contract cyflogaeth ffurfiol, ond mae glynu wrth y rheolau a'r bolisïau a wneir gan y Coleg o bryd i'w gilydd yn amod cyflogaeth. Gall unrhyw achos o fethu â dilyn y polisi arwain at weithdrefnau disgyblu.

Mae'n ofynnol i staff roi gwybod i'r Tîm Adnoddau Dynol yn ysgrifenedig am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth a gedwir cyn gynted â phosibl, e.e. newid enw, cyfeiriad, rhif ffôn cyswllt, manylion banc.

Dysgwyr

Drwy ymrestru gyda CAVC, mae myfyriwr wedi cytuno i fod wedi eu rhwymo wrth amodau Ymrestru CAVC. Gellir galw ar y rheoliadau disgyblu myfyrwyr mewn achos o fyfyrwr yn anwybyddu ei gyfrifoldebau.

Mae'n rhaid i fyfyrwyr:

- o wirio bod y wybodaeth ar eu ffurflen ymrestru yn gywir.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Inspirational. Inclusive. Influential.

www.cardiffandvalecollege.ac.uk

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	10/2022
Dyddiad Adolygu Nesaf:	10/2024

- o rhoi gwybod yn ysgrifenedig yn brydlon i'r Coleg am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth a gedwir, h.y. newid enw, cyfeiriad, rhif ffôn cyswllt, unigolion cyswllt mewn argyfwng.

Cleientiaid

Bydd gwybodaeth ynglŷn â chleientiaid CAVC o natur ariannol neu gytundebol ac yn cael ei chadw at ddibenion penodol, e.e. prosesu taliadau.

Pan fydd angen rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid neu gleientiaid allanol CAVC, rhaid llofnodi cytundeb cyfreithiol ar wahân gan y ddwy ochr.

Prosesu Data Personol Sensitif

Ar brydiau, mae'n angenrheidiol prosesu Data Personol Sensitif. Gall hyn fod er mwyn sicrhau bod CAVC yn lle diogel i bawb neu i weithredu polisiau eraill CAVC, megis y Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a'r Polisi Diogelu.

Bydd CAVC yn gofyn am wybodaeth ynghylch anghenion iechyd penodol, megis alergeddau i ffurfiau penodol ar feddyginiaeth, neu gyflyrau eraill megis asthma neu ddiabetes. Bydd CAVC yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddiogelu iechyd a diogelwch yr unigolyn yn unig.

Gwerthfawrogi y gall prosesu data personol sensitif beri pryder. Polisi CAVC, lle bynnag mae'n bosibl a phriodol, yw ceisio caniatâd gan wrthrychau data cyn casglu neu brosesu data personol sensitif fel arall. Fodd bynnag, nid yw ceisio caniatâd bob amser yn briodol nac yn angenrheidiol. Er enghraifft, dan rai amgylchiadau penodol, mae gan CAVC yr hawl i brosesu data personol sensitif yn deg a chyfreithiol os caiff o leiaf un o'r amodau canlynol eu bodloni:

- o Mae prosesu'r wybodaeth yn angenrheidiol i berfformio rhwymedigaethau CAVC dan y gyfraith cyflogaeth;
- o Mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn ceisio cyngor cyfreithiol, gweinyddu cyfiawnder neu ymarfer swyddogaethau cyhoeddus;
- o Mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn diogelu buddiannau allweddol y gwrthrych data neu unigolyn arall;
- o Caiff y data ei brosesu mewn perthynas â monitro cyfleoedd cyfartal.

Cais am Fynediad gan y Testun

Dan y Ddeddf, mae gan staff, myfyrwyr a defnyddwyr eraill CAVC yr hawl i'r canlynol:

- o Cael gwybod a yw eu data personol yn cael ei brosesu;
- o Cael disgrifiad o'r data dan sylw;
- o Cael gwybod am ddibenion y prosesu;
- o Cael gwybod pwy yw'r trydydd parti y bydd y data yn cael ei rannu ag ef;
- o Gwneud cais am gopi darllenadwy o'u data personol.

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	10/2022
Dyddiad Adolygu Nesaf:	10/2024

Rhaid i unigolion sy'n ceisio mynediad at ddata personol dan y Ddeddf roi'r canlynol i'r Swyddog Diogelu Data:

- o cais ysgrifenedig, (naill ai'n electronig neu gopi caled; nid oes rhaid i'r cais gyfeirio at y Ddeddf);
- o digon o wybodaeth i alluogi CAVC i:
 - o ddilysu hunaniaeth yr unigolyn (megis bil cyfleustodau neu gerdyn adnabod staff neu fyfyrwr a chopi ardystiedig o ddarn arall o brawf adnabod); ac
 - o adnabod pa wybodaeth sydd ei hangen ar yr unigolyn, ac ymhle mae'r wybodaeth honno yn cael ei chadw.

Mae gan CAVC yr hawl i ofyn am ragor o wybodaeth os oes angen er mwyn dod o hyd i'r data y gwnaed cais amdano.

Nod CAVC yw cydymffurfio â cheisiadau am fynediad at wybodaeth bersonol cyn gynted â phosibl, ond bydd yn sicrhau y caiff ei ddarparu cyn pen un mis calendr.

Mae gan fyfyrwyr hawl i gael gwybodaeth ynglŷn â'u marciau ar gyfer gwaith cwrs ac arholiadau. Serch hynny, gall darparu hyn gymryd yn hirach na gwybodaeth arall. Am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at Bolisi Rhyddid Gwybodaeth a gweithdrefnau cysylltiedig CAVC.

Mae nifer o eithriadau dan y Ddeddf i'r hawl i gael mynediad at ddata personol. Pan nad CAVC yn gallu cydymffurfio â chais am fynediad gan wrthrych data yn llawn neu'n rhannol, bydd yn nodi'r rhesymau dros pam nad yw'n gallu gwneud hynny.

Storio a Chadw Data

Bydd gwybodaeth yn cael ei storio mewn modd sy'n rhoi mynediad rhesymol o ran pam mae'r wybodaeth yn cael ei chadw. Bydd mesurau technegol a chyfundrefnol priodol yn cael eu dilyn i atal y data rhag cael ei brosesu'n anghyfreithlon a cholli neu ddinistrio data personol. Er mwyn sicrhau hyn, mae gan CAVC ganllawiau Cadw Data ar wahân sy'n ymdrin â:

- o Storio cofnodion yn ffisegol, h.y. canllawiau staff ar ddulliau storio arfer orau, cyfnodau cadw a chyfnodau dinistrio.
- o Storio data ar rwydwaith h.y. gweithdrefnau defnydd derbyniol o TG gan staff/myfyrwyr, diogelwch rhwydwaith, gweinydd wrth gefn a mynediad oddi ar y safle.

Camddefnyddio Data

Dylai aelodau o staff/myfyrwyr sy'n credu na ddilynwyd y polisi mewn perthynas â data personol amdanynt hwy godi'r mater gyda'r Swyddog Diogelu Data yn gyntaf. Os na chaiff y mater ei ddatrys, gellir ei godi fel cwyn ffurfiol drwy ddilyn y weithdrefn gwynion.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r:

- Holl ddysgwyr o fewn CAVC, waeth beth fo'u dull neu leoliad astudio.
- Holl aelodau staff o fewn CAVC.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.
Inspirational. Inclusive. Influential.

www.cardiffandvalecollege.ac.uk

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	10/2022
Dyddiad Adolygu Nesaf:	10/2024

- Holl bartneriaid a sefydliadau breiniol.
- Y rhai sy'n ymweld â CAVC.

Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Y Polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) ac y rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd sy'n cymeradwyo'r polisi.
- Weithredu yn unol â'r polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig a hysbysu eu tiwtoriaid am unrhyw weithgarwch sy'n mynd yn groes i'r egwyddorion sydd wedi'u hamlinellu.

Bydd yr Uwch Dîm Arwain a Gweithredol yn gyfrifol am:

- Datblygu trefniadau llywodraethu effeithiol a sicrhau bod polisiâu perthnasol wedi'u sefydlu ar draws CAVC.
- Adolygu'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Sicrhau bod adnoddau digonol mewn lle i gynnal y dyletswyddau sydd wedi'u hamlinellu.
- Sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol

Mae'r Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth/Technoleg Gwybodaeth yn gyfrifol am:

- Gynnal pa mor gyfredol yw'r polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig.
- Sicrhau y cymerir camau priodol i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i fod yn sail i arferion a'u gwella.

Mae'r Staff Ansawdd Uwch yn gyfrifol am:

- Darparu hyfforddiant, datblygiad a chefnogaeth briodol i staff i sicrhau y gallant ddilyn y polisi.

Mae'r holl Staff Addysgu a Chefnogi Sgiliau yn gyfrifol am:

- Weithredu yn unol â'r polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig a hysbysu eu rheolwyr llinell am unrhyw weithgarwch sy'n mynd yn groes i'r egwyddorion sydd wedi'u hamlinellu.
- Mynychu digwyddiadau datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol.

Mae'r dysgwyr yn gyfrifol am:

- Weithredu yn unol â'r polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig a hysbysu eu rheolwyr llinell am unrhyw weithgaredd sy'n mynd yn groes i'r egwyddorion sydd wedi'u hamlinellu.
- Mynychu sesiynau cynefino sy'n gysylltiedig â hyn.

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	10/2022
Dyddiad Adolygu Nesaf:	10/2024

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, ysgrifennwyd y Polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r iaith Gymraeg neu Saesneg. Mae'r cyfrifoldeb sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, yn unol â hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg ac o ganlyniad yn ei gwneud hi'n haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd bob dydd.

Goblygiadau Iechyd a Diogelwch

Nid oes goblygiadau Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â'r polisi hwn. Ymdrinnir ag unrhyw oblygiadau Iechyd a Diogelwch gweithgareddau ymchwil gan weithdrefnau'r ymchwil.

Polisiau Cysylltiedig

- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Diogelu

Gweithdrefnau Cysylltiedig

- Gweithdrefnau Diogelu Data
- Hysbysiad Preifatrwydd CAVC
- Hysbysiad Preifatrwydd Staff
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Diogelu
- Cadw Data
- Rhyddid Gwybodaeth
- Cod Gwisg

Cymeradwyo, Addasu ac Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 2 flynedd.

Lleoliad a Chael Gafael ar y Polisi

Mae'r polisi hwn ar gael ar wefan y coleg. Mae copi Saesneg o'r polisi ar gael.

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	10/2022
Dyddiad Adolygu Nesaf:	10/2024

Dyddiad cymeradwyo: 17 Mai 2013

Cymeradwywyd gan: Y Prif Fwrdd

Dyddiad adolygu: 30 Medi 2024

Rheolwr sy'n Gyfrifol: Cyfarwyddwr ITIS

Arweinydd Gweithredol: Y Prif Swyddog Gweithredu

Hygyrch i Fyfyrwyr: Ydy

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	10/2022
Dyddiad Adolygu Nesaf:	10/2024